# Ar Ŵyl Dewi Sant

### Pennill

Chwifia'r ddraig, cana'r gân
Fe ddathlwn Ŵyl ein Nawddsant, Gymry glân
A'r delyn bêr, â lleisiau llon
Down â gwen i bob gwedd, yr Ŵyl Ddewi hon.

Rho genhinen yn falch
Ar dy wisg frethyn glân
A chefnogwn y cochion yn ddi-wahan
Yn y cymoedd, ar lan môr ac ar foelydd fry
Ddown ni gyd at ein gilydd, nawr i ddathlu balchder Cymru ar gân.

### Cytgan

Cymru dirion, gwlad y gân
Canwn glodydd Gymru glân
Ein hiraeth sy'n ein cymell ni
Ar Ŵyl Dewi Sant



